# Hyrwyddo a monitro iechyd, diogelwch a diogeledd

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn cwmpasu’r gweithgareddau allweddol sy’n ofynnol i fonitro arferion iechyd, diogelwch a diogeledd yn eich gweithle, i sicrhau bod yr ardal rydych chi’n gyfrifol amdani yn amgylchedd diogel ac iach i’r bobl sy’n gweithio yno ac i’r rheiny sy’n ymweld. Y gweithle yw lle bynnag y mae eich gweithgareddau gwaith yn digwydd.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o’r prif risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd yn eich gweithle a chydweithredu â’ch cyflogwr i’w helpu i gydymffurfio â’u dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd yn cael eu hasesu’n rheolaidd a chymryd camau i ddileu neu reoli peryglon a risgiau sydd wedi cael eu nodi. Hefyd, mae’n cynnwys rhoi gwybod i’r bobl sy’n gweithio yn yr ardal rydych chi’n gyfrifol amdani, neu sy’n mynd i mewn i’r ardal honno, am unrhyw ofynion iechyd, diogelwch a diogeledd, monitro perfformiad iechyd, diogelwch a diogeledd, a chymryd rheolaeth yn achos digwyddiad neu argyfwng.

Mae’n bwysig eich bod yn cydnabod cyfyngiadau eich cymhwysedd eich hun yn eich holl weithgareddau ac yn gofyn am help a chyngor, pan fydd angen.

Mae’r safon hon ar gyfer pobl sydd â chyfrifoldeb am weithle.

Cysylltiadau â NOS eraill:
LANCS10 Rheoli’r ymateb cychwynnol i ddigwyddiadau ac argyfyngau yn y sector tir

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi eich cyfrifoldebau a'ch atebolrwydd personol o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a gweithdrefnau sefydliadol
2. monitro ac asesu risgiau i iechyd, diogelwch a diogeledd yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani, yn unol â deddfwriaeth a gweithdrefnau sefydliadol perthnasol
3. rhoi camau gweithredu prydlon ac effeithiol ar waith i ddileu neu reoli peryglon a risgiau a nodwyd, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
4. defnyddio dulliau priodol i roi gwybod i'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani, ac sy'n mynd i mewn i'r ardal honno, am y risgiau a'r mesurau rheoli sydd wedi cael eu rhoi ar waith
5. monitro bod pawb yn cadw at y rheoliadau iechyd a diogelwch, gweithdrefnau'r sefydliad a'r mesurau rheoli sydd wedi cael eu rhoi ar waith i ddileu neu leihau risgiau yn eich ardal weithio
6. gwirio bod gweithwyr wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio eitemau gwaith sydd wedi cael eu cyflenwi gan y cyflogwr
7. gwirio bod dillad a chyfarpar diogelu personol (PE) yn cael eu defnyddio a'u cynnal a chadw
8. gwirio bod arferion gweithio diogel i amddiffyn rhag anaf, clefyd neu broblemau iechyd eraill yn cael eu mabwysiadu
9. asesu'r risgiau a rhoi dulliau diogel o godi a chario ar waith i leihau risg anaf yn unol â rheoliadau codi a chario
10. gwirio bod cyfarpar a pheiriannau yn cael eu paratoi, eu gwirio, eu defnyddio, eu cynnal a chadw a'u storio yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
11. gwirio bod sylweddau peryglus yn cael eu trin, eu defnyddio a'u storio yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
12. gwirio bod gweithdrefnau a systemau gweithio diogel yn cael eu mabwysiadu wrth weithio ar eich pen eich hun neu mewn sefyllfa beryglus bosibl
13. gwirio bod diogeledd yn cael ei gynnal yn eich ardal weithio, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
14. ymgynghori â'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani er mwyn cael adborth ar effeithiolrwydd gweithdrefnau iechyd, diogelwch a diogeledd
15. rhoi'r gweithdrefnau gofynnol ar waith yn ddiogel ac yn ddi-oed mewn sefyllfa

sy’n argyfwng

16. cofnodi digwyddiadau ac argyfyngau, gan gynnwys damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd, a rhoi gwybod amdanynt, yn unol â gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau sefydliadol

17. datblygu diwylliant o fewn yr ardal rydych chi’n gyfrifol amdani sy’n rhoi iechyd, diogelwch a diogeledd yn gyntaf

18. ceisio a defnyddio arbenigedd arbenigol, lle bo angen

19. monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd mesurau iechyd, diogelwch a diogeledd yn unol â gweithdrefnau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol cyflogwyr a gweithwyr am iechyd a diogelwch a phwysigrwydd dilyn deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a diogelwch
2. y peryglon penodol sy'n gysylltiedig â'ch gweithle, gan gynnwys anaf personol, dal clefyd, a phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl eraill
3. yr effeithiau y gall damweiniau a salwch cysylltiedig â gwaith eu cael ar weithwyr a busnesau a phwysigrwydd lleihau'r rhain
4. pwysigrwydd dilyn y diweddaraf am faterion allweddol yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a diogeledd yn eich diwydiant a sut i wneud hyn
5. y gwahaniaeth rhwng "perygl" a "risg", a sut i gynnal asesiad risgiau i fonitro iechyd, diogelwch a diogeledd
6. pwysigrwydd asesu risg yn rheolaidd a pha gamau i'w cymryd pan nodir peryglon
7. hierarchaeth y mesurau i reoli risgiau, gan gynnwys dileu, amnewid, rheoliadau peirianneg, systemau gweithio diogel, hyfforddiant/cyfarwyddyd a PPE
8. sut i gyfleu canfyddiadau'r asesiad risg a'r mesurau rheoli a roddwyd ar waith i'r bobl sy'n gweithio yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani neu sy'n mynd i mewn i'r ardal honno
9. y dillad a'r cyfarpar diogelu personol (PPE) addas sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith sy'n cael ei wneud
10. pwysigrwydd gwirio'n rheolaidd bod PPE a chyfarpar brys ar gael ac yn cael eu cynnal a chadw
11. pwysigrwydd cymhennu'n dda yn y gweithle i gynnal iechyd a diogelwch
12. pwysigrwydd gweithdrefnau monitro i gynnal diogeledd yn eich ardal weithio
13. risgiau anaf sy'n gysylltiedig â chodi a chario, sut i asesu lle byddai codi a chario yn beryglus a'r camau i'w cymryd i leihau'r risgiau
14. dulliau diogel o baratoi, gwirio, defnyddio, cynnal a chadw a storio cyfarpar a pheiriannau yn ddiogel yn unol â deddfwriaeth berthnasol, cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gweithdrefnau sefydliadol
15. gofynion allweddol y rheoliadau sy'n gysylltiedig â thrin, defnyddio a storio sylweddau peryglus
16. risgiau gweithio ar eich pen eich hun, mewn lleoliadau anghysbell neu sefyllfaoedd peryglus posibl, yr angen am systemau gweithio diogel a phwysigrwydd monitro'u bod yn cael eu dilyn, gan gynnwys gweithdrefnau

cyfathrebu a gweithdrefnau brys

17. y gweithdrefnau i'w dilyn a'r camau i'w cymryd os bydd digwyddiadau ac argyfyngau, gan gynnwys damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd
18. y gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer cofnodi digwyddiadau ac argyfyngau, gan gynnwys damweiniau a damweiniau fu bron â digwydd, a rhoi gwybod amdanynt
19. pwysigrwydd arwain trwy esiampl o ran iechyd, diogelwch a diogeledd a datblygu diwylliant yn yr ardal rydych chi'n gyfrifol amdani sy'n gosod iechyd, diogelwch a diogeledd yn gyntaf
20. ble i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth yn gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a diogeledd
21. gofynion eich sefydliad i fonitro effeithiolrwydd mesurau iechyd, diogelwch a diogeledd, ac adrodd arnynt

## Geirfa